Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 10. Rhif 7.] GORPHENAF, 1910. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.
O Fon i Fynwy.
Dynes Dduwiol. Parcwyson.
Gogwyddiad yr oes tuagat ddigrifwch.
D. Jones, Mydroilyn.
Arholiad yr Ysgol Sul. 1910.
Y Parch. David Lloyd, M.A., LL.D., Prifathraw Coleg Caerfyrddin.
Clwydwenfro.
Cymanfa Gerddorol Ceredigion.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

—TALIADAU.—

R.D.D., Mardy; Miss D., Caerdydd; J.L., Bersham; J.R.T., Pontshan; E.J., Pensarn; D.D., Gorseinon; T.T., Rock Mill; D.S., Bwlchyffin; E.H., Dihewyd; D.M.J., Cwrtnewydd; G.J., Castell, Pencarreg; J.D., Llwynyrheol; Parch. W.J.P., Newton; S.H., Pontbrenllwyd; D.Ll.E., Kensington; Parch. D.J.E., Chester; W.D., Dolbante Factory; D.J., Llewele; M.L., Cefncoed; Parch. E.D.P.E., Bury; D.J., Clydach Vale; Parch. J.W., Pantteg; J.T., Castell-draenog; W.S.J., Rhydychen; J.E., Aberdâr; E.J., New Tredegar; Miss J., Tregaron; D.J., Tydwgi; D.T., Penarfawr; E.L., Bedlinog; Mrs. J., Bettws; J.E.E., Stratford; J.J.D., Aberdâr; J.J., Llundain; Dr. L., Llannon; Miss D., Cellan; D.D., Llanbedr; E.J., Glynhynod; J.D., Bethania; J.D., Llundain; J.M., Blaengwynfi; D.M.D., Aberamman.

PRESBYTERIAN FUND.

The Managers give notice that they are prepared to offer the following Scholarships to Students for the Ministry, tenable from October, 1910—

I. THREE GRADUATE SCHOLARSHIPS, tenable at Carmarthen College, of the value of £40 a year for three years.

II. ONE UNDERGRADUATE SCHOLARSHIP, of the value of £50 a year, tenable for two or three years (at the option of the Board), at any recognised University College in the United Kingdom.

For Particulars and Forms of Application apply to the Secretary of the Board, G. HAROLD CLENELL, Esq., 6, Great James Street, Bedford Row, London, W.C.

YR • YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1910. [CYF. X. RHIF 7.

NODION Y MIS.

RHYWBETH llai na deugain mlynedd yn ol, cyhoeddodd y Parch. Baldwin Brown (A.) amryw lythyron yn erbyn yr arferiad, rhy gyffredin, o wneud prydlesoedd yr addoldai yn ddarostyngedig i awdurdod yr hyn a alwai efe—y "Llaw Farw," the *Dead Hand;* ac i geisio gwasgu ar y cyhoedd y doethineb o adael y prydlesoedd yn rhydd—yn *Free Trusts;* a gadael i'r eglwys fyw i benderfynu'r athrawiaeth. Mae mwyafrif mawr prydlesoedd addoldai anghydffurfiol y prif enwadau yn rhwymo'r eglwysi wrth gyffes a chredo John Calfin; a'r dyb gyffredin yw nad oes yr un eglwys yn dal wrth gredo John Calfin yn ei chyfanrwydd. Dysgai John athrawiaeth etholedigaeth ddiamodol, fod mwyafrif mawr trigolion y ddaear er tragwyddoldeb wedi eu harfaethu i dragwyddol wae—a'r "Tad tirion a charedig (?)" yn cael ei ogoniant yn ogystal yn namnedigaeth y miliynau ag y mae yn nghadwedigaeth y miloedd. Yr ychydig yn unig sydd yn dianc! Y mae John Calfin ei hunan yn gorfod cyffesu mai "arfaeth echryslawn" yw—Decretum quidem horribile fateor!

Cawn engraifft o ganlyniad anhapus prydles o'r fath yn yr hyn ddigwyddodd y dydd o'r blaen yn Doncaster. Yr oedd y gweinidog —y Parch. Percy Jones (A.) mae'n debyg yn anwybyddu

GOFYNION Y BRYDLES

i bregethu Calfiniaeth, ac yn traethu egwyddorion croes. Perthyn i'r gynulleidfa ddeg o ymddiriedolwyr, dau yn unig yn mynychu'r achos, a'r ddau hyny yn ogystal a'r eglwys mewn cydymdeimlad a'r gweinidog; tra mae'r wyth eraill heb fod yn aelodau ac heb fod yn dal un cysylltiad, ond yn *outsiders*. Daeth i glustiau'r wyth fod y

pregethwr yn traethu heresi, ac yn union er mwyn iachusrwydd yr athrawiaeth maent yn protestio—ond i ddim pwrpas. Mae'r gweinidog a'r gynulleidfa yn un a chytun. A dyna'r wyth *outsider* yn codi'r mater i lys cyfraith, ac yno ar ol hir a manwl holi, fe benderfyna Mr. Justice Joyce, gan fod Mr. Jones yn gwrthod addaw pregethu Calfiniaeth (1) fod yn rhaid ufuddhau i ofynion y brydles, ac (2) fod yn rhaid *cau'r capel* hyd oni cheir deddf newydd yn caniatau i'r eglwys yr hyn a ewyllysia. Mae'r gofyniad yn ddyddorol—Pa nifer o gapelau Anghydffurfwyr sy'n ddiogel os gosodir y ddeddf mewn gweithrediad ?

Mae'n amlwg fod penderfyniad Mr. Justice Joyce yn gosod ugeiniau, ie canoedd o eglwysi'r Anghydffurfwyr mewn perygl o golli eu haddoldai. Ni waeth beth fydd barn y pregethwr a'i gynulleidfa a'r ymddiriedolwyr, os bydd y pregethu yn groes i ofynion y brydles, gall un ymddiriedolwr yn unig, a hwnw yn *outsider*, ac heb ddal un cysylltiad a'r achos, godi'r mater i'r gwynt a'i ddwyn gerbron llys cyfraith, ac os profir gerbron y llys nad yw gofynion y brydles yn cael eu cadw, gellir gorchymyn cau'r capel. A sylwer yn mhellach, nad yw anwybyddu'r gofynion, a pheidio pregethu'n groes, ddim yn ddigon i ddiogelu'r hawl, rhaid yw pregethu'r Pum Pwnc ar eu hyd a'u lled.

Dygwyd y mater hwn i sylw y Parch. J. Morgan Jones, Caerdydd, un o brif awdurdodau'r enwad, gan un o *interviewers* y *South Wales Daily News*. Daliai Mr. Jones fod eu heglwysi hwy yn berffaith ddiogel ; (1) fod pob pregethwr wrth gymeryd ei urddo yn ymrwymo i fod yn ffyddlawn i'r gyffes a'r gredo—i'r fath Galfiniaeth ag sydd yn y Gyffes Ffydd ; cyfeiliornus yw'r syniad nad yw'r gweinidogion yn pregethu Calfiniaeth a'u bod yn eu calonau yn ei herbyn. (2) Nad yw yr eglwys fel y cyfryw yn berchen ar yr addoldy, mai meddiant y Cyfundeb yw. (3) Ni phenodir yr ymddiriedolwyr gan aelodau'r eglwys ond gan y Cwrdd Misol. (4) Fod y syniad poblogaidd am Galfiniaeth yn gyfeiliornus yn nghylch Etholedigaeth. Geilw'r Methodistiad ar bawb pechaduriaid i ddyfod at Iesu Grist ac y cant eu derbyn ; nad oes dim mewn unrhyw "Etholedigaeth" nac unrhyw athrawiaeth yn groes i hyny. (5) Gofyniad y brydles yw ar fod pob cynulleidfa yn edrych ati fod y pregethu mewn cydgordiad a'r Gyffes Ffydd.

Ofnwn pe gwnelid *Test Case* y byddai i Mr. Jones gael ei siomi. Ni charem ddweyd nad yw Evan Tomos Rhys yn eithafoli tipyn yn ei adroddiad o'r bregeth glywodd Daniel Rowland yn draddodi :—

Mae'n amser enbyd rhyfedd !
Fe dynwyd Iesu o'i orsedd
I lawr heb arswyd ;
Ac yn ei le fe Ragfarn
O amryfusedd cadarn,
I'w fainc fe'i codwyd :
Pob darn, o'r cariad aeth o'r carn !
Efe ga'i'n trefnu
Y *Llwyd* a'i gwm'ni
I'r cambwll obry,
Tros fyth i soddi'n sarn ;

Can's *Rowlands* nid yr Iesu,
Sy'n penderfynu'r farn !
Fe chwyth, â'i salw ragfarn syth,
Bob cyfryw enaid
Nad ynt o'i ddefaid
Yn *hereticiaid*,
Dan chwerw dynged chwith,
Yn dorf ar gefn arfaeth,
I uffern boeth am byth ! !

Pwnc anhawdd i'w benderfynu yw, Beth yw dyledswydd gweinidog sydd yn dal ac yn pregethu egwyddorion croes i'r hyn ofynir gan y brydles, a phwnc y gwahaniaethir llawer yn ei gylch. 'D oes nemawr un debygwn o offeiriaid, mewn oedran addfed, all ddweyd yn onest ei fod yn credu'r oll o'r Llyfr Gweddi Gyffredin, i'r hwn y rhoddodd ei *assent and consent* yn fab tair ar hugain oed. A ydyw mewn gwir yn onest wrth ymlynu yn ei swydd a derbyn tâl a roddir ar y dealldwriaeth ei fod yn ffyddlawn i'r Llyfr Gweddi? Pwy sydd i farnu? Barna Undodiaid yn gyffredin nad yw ; a chymeradwyant Theophilus Lindsey a Stopford A. Brooke am ddod allan. Fe dybir nad oes nemawr neb yn mhlith gweinidogion yr Anghydffurfwyr all ddweyd yn onest ei fod yn credu o galon yn Mhump Pwnc Calfin, ac eto mae prydles ei eglwys yn gofyn hyny oddiwrtho. Caniataer i ni ofyn yn sobr, Beth fyddai'r canlyniad pe elai'r oll o'r offeiriaid a'r pregethwyr allan gyda'u gilydd? Mae'n fater rhy sobr i'w benderfynu'n frysiog. Ac yn sicr ni allwn ni ddim cymeradwyo'r heretic bach pan yn codi'r cri o heresi yn erbyn ei frawd sydd yn ei dyb ef yn heretic mawr. Mae prydlesoedd yr Annibynwyr cyn guled a John Calfin, ac mi fyddwn i'n tueddu i gyfleu yr un rheol at y Prifathraw P. T. Forsyth ag at y Parch. R. J. Campbell ; nid oes yr un o honynt yn dod i fyny a gofynion y prydlesoedd. Ond diolch, ddyweda i, nad oes nemawr i weinidog gyda'r Undodiaid mewn cyfyng gyngor oblegid y brydles. Mae'n prydlesoedd ni bron bob un yn brydlesoedd rhyddion—yn *Free Trusts*.

Doniol yw darllen am Dr. Horton—i fyny am *Libel*. Tosturiwn wrtho am ei ddygn anwybodaeth ; ond nid ydym yn synu chwaith ei fod yn methu gwahaniaethu rhwng Pabyddiaeth ac Anglicaniaeth neu Uchel-eglwysyddiaeth. Dygwyd y Dr. i fyny o flaen Mr. Justice Darling, gan berchenogion yr *Academy* am gabldraeth neu *Libel*. Yr oedd y *Libel* yn gynwysedig mewn llythyr o'i eiddo yn y *Daily News* yn yr hwn yr awgrymai fod yr *Academy* wedi myned yn organ yr Eglwys Babaidd. Golygydd yr *Academy* yw Lord Alfred Douglas, dyn pwysig iawn, dybiwn, oddiwrth ei ymddygiad o flaen y *Bench*. Addefai meilord fod ei bapyr yn gryf yn erbyn Anghydffurfiaeth ac yn wrth-Brotestanaidd. Nid oedd yn foddlawn cael ei alw yn Brotestant, nid

oedd yn protestio yn erbyn dim; fe allai fod yn aelod o Eglwys Loegr heb gashau Eglwys Rhufain. Ebe'r Judge, "Chwi ddylech gashau y Diafol a'i holl weithredoedd." Croesholwyd gan Syr Edward Carson, yr hwn a orfu ddywedyd,—"If you please, Lord Alfred Douglas, I am not treating you badly, you know, and even in your great position, you must not be impertinent in the Law Courts." Mae'n amlwg nad oedd gan meilord fawr o barch i unrhyw fath o Anghydffurfiaeth, ac amharchus ddigon oedd y cyfeiriadau at Dr. Aked a Dr. Clifford. Credai Dr. Horton fod yn bresenol fath o faesgyrch (*campaign*) ar waith, a'i amcan i ddychwelyd Lloegr at Babyddiaeth, a'i fod yn cael ei gario yn y blaen mewn modd dirgelaidd. O'r diwedd, ar ol hir amser, dygwyd dedfryd o blaid y cyhuddedig, gyda'r ychwanegiad y dylasai'r Dr. fod yn fwy gofalus gyda'i ffeithiau. Felly daeth Dr. Horton yn rhydd gyda math o ddedfryd Wyddelig—Not guilty, but don't do it again!

Protestaniaeth—*horrible word* yw i Lord Alfred Douglas. Mae'n *horrible* iddo ef am nad yw i'w gael yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Fodd bynag mae'n digwydd bod yn air o gryn bwys, serch hyny, mewn gwir yn rhan o'r Cyfansoddiad Prydeinig; felly nid yw opiniwn ei arglwyddiaeth na'r Llyfr Gweddi o ddim pwys mewn cymhariaeth. Mae'r ddeddf, yn ol yr hon y ceidw'r Brenin ei le, yn rhwymo'r olyniaeth yn y llinell Brotestanaidd—*in the Protestant line*. Mae'r "Bill of Rights" tra yn caniatau i ni ein rhyddid cenedlaethol, yn amddiffyn y grefydd Brotestanaidd. Cyfeiria'r "Bill of Rights" at y deyrnas Brotestanaidd hon, a sicrha'r goron i etifeddion sydd yn Brotestaniaid. Ar ei goroniad y mae'r Brenin yn gorfod cymeryd y llw i gynal y grefydd Brotestanaidd ddiwygiedig. Er hyny y mae'r gair i Lord Douglas yn "horrible"; boed felly, ni wna ei gyfarth ef fawr gwahaniaeth.

Mae dau giwrad—ieuanc gobeithio—newydd gyhoeddi Catecism newydd sydd yn dangos safle'r Eglwys Sefydledig tuag at Anghydffurfwyr. Dyma'r ateb i rai o'r gofyniadau:—140. Mae'r sawl sy'n marw mewn pechod marwol yn myned i uffern ac ar wahan i Dduw am byth. 205. Nid digon ufuddhau i'r Deg Gorchymyn, rhaid i ni ufuddhau i orchymynion yr eglwys.—Rhoddir rhes o'r gorchymynion hyn—un o honynt i beidio priodi ar yr Adfent na'r Garawys; ac ychwanegir na fendithia Duw y sawl anufuddhant i'r gorchymyn hwn. Y casgliad yw fod y rhai briodant ar yr Adfent neu'r Garawys yn euog o "bechod marwol," ac oni cheir maddeuant y bydd i'r cyfryw fyned i "uffern ar wahan oddiwrth Dduw am byth!"—Ni cheir dim mwy afresymol yn mhaganiaeth unrhyw wlad. Onid oes galw am genhadaeth at ddynion o'r fath hyn!

O FON I FYNWY.

Y MAE'R dydd hwyaf ar welwi i'r nôs; ac o draw gwelaf auaf arall yn y pellder, a'i rew, a'i fèr-nôs, a'i ystormydd. Megys ddoe yr oeddwn yn llawenychu yn nhroad y dydd; heddyw yr wyf yn tristhau am droi o hono yn ei ol eto.

Mae'r byd yn brydferth—yn rôs, yn redyn, yn llawenydd a chân o gwr bwy gilydd. Pwy fedr dristhau yn y fath dymhor? Yn wir, nis medrai dyn ymofidio pe bai greadur yn byw yn unig yn y presenol. Ond nid creadur felly ydyw. Y mae dyn yn byw ddoe, heddyw, ac yforu—ac, efallai, yn dragywydd. Ddoe ymladdwn a'r ddryc-hin ar y mynyddoedd; heddyw gorweddaf yn ngwên yr heulwen, dan awyr las, ddilychwin, rhwng rhedyn newyddion y bryniau llawen; ac yforu, wele'r cymylau'n ymgasglu, yr adar yn tewi, a'r ystorm yn ail-dorri, a minnau yn ei chanol. Heddyw mae lili wen yr ardd yn wên i gyd; 'does ond llygad craff eill weled gwywdra eisoes yn ymaflyd yn ei chalon, a'i holl brydferthwch yn diflanu yn oerni y gauaf draw. Mae rhosyn gwridog wrth fy nrws; ond gwelaf y pryf eisoes yn gafael yn ei fynwes; a gwelaf ei falurion dan draed ystorom hydref. Mae'r ehedydd yn canu yn berorus yn yr awyr, yn telori mor hyfryd a phe buasai tragwyddoldeb o hafddydd yn ei aros; anghofia ddoe; nis edrych tuag yforu, ond cân a'i holl galon gân ogoneddus y presennol. Nid edrych efe yn mlaen nac yn ol, megys dyn.

"We look before and after,
And sigh for what is not,
Our sincerest laughter
With some pain is fraught;
Our sweetest songs are those
Which tell of saddest thought."

Cân y gôg draw yn nghuddfan y dail, a'i cherdd mor felus, a chartrefol, a Chymreig a phe bai yn bwriadu treulio gweddill ei hoes yn Ngwlad y Bryniau; ond gyda thinc y bladur ar y maes dyna hi i ffwrdd; i b'le? Nis gwyr neb.

'Rwy'n caru'r haf; yn enwedig yn nhymor addewid. Hoff genyf weled syfi cynar Ebrill, a chrinllys gleision Mai, a meillion hufen Mehefin. 'Rwy'n caru'r Haf, am hynny yr ymofidiaf yn ofn ei golli. Yr wyf yn gyfoethog yn ei flodau aur; ond gwywo mae'r blodau gynted ag y genir hwy. Y mae pobpeth yn y byd hwn yn dechreu marw gynted ag ei genir. Nis genir yr un llawenydd mawr nad oes ofid eisoes yn llechu yn ei fron. Y mae pob ennill mawr yn dyfod a cholled yn ei gol. I bob pleser mae ei boen cyferbyniol. Ac y mae Mehefin yn ei lawn rwysg ar y dolydd, ac yn taenu yn ogoniant ar y mynyddoedd, a minnau yn drist yn nghanol yr ystorom o brydferthwch. Ai tybed y caf yr ad-daliad o lawenydd gobaith pan dyr ar fy mhen ystorom hell y gauaf?

Gwelsoch oll englyn Daniel Ddu ar gareg fedd rhywun—

" Echdoe yr o'wn mewn nychdod—yn eiddil
Yn nydd fy mabandod ;
Ddoe yn hoenus ddyn hynod ;
Heddyw mewn bedd yma'n bod."

Y mae canol haf yn myned heibio. Syllaf yn ol, yn ol o hyd i wanwyn melus oes. Digon tymhestlog fu mis bach einioes ; rhuadwy ddigon fu Mawrth ; bradwrus fu Ebrill ; llwydrewog fu Mai—lladdodd ddegau o flodau prydferthaf addewid ; Mehefin ni fu berffaith ; ond gwn fod yr amser goreu wedi diflanu. Y mae Gorphen Haf yn ymyl, ac ystorom Awst bywyd, a dolef dryc-hin Hydref oes, a rhew ac eira gwyn y gauaf ; gwelaf hwy eisioes ar binaclau eglur y dyfodol agos.

Edrychaf yn ol, yn ol o hyd. Yno mae blynyddau hirion yn aros ; yno mae hafau blodeuog, a gwanwyn gwyrdd ; yno mae dyddiau dedwyddyd ac oriau aur ; yno yr erys tragwyddoldeb mebyd : canys nid yw amser ond ymddangosiad ; y mae pob awr yn dragwyddoldeb i rywbeth. Af yn ol, yn ol o hyd ; gadawaf yr Haf eleni ar ol, a deg o'i gyd-hafau gydag ef. Ai posibl? Na, gâd i mi gludo un rhosyn gyda mi ; di angel arweinydd. Gaf fi wneyd hyny? Na chai ddim, medd yr angel. Os wyt am fyned yn ol i haf mebyd, rhaid i ti adael rhosynau'r presenol i gyd ar ol. Sut y medraf ? mae'r rhosyn mor nefol brydferth ; mae lliw paradwys ar ei rudd. Mae'r rhosyn wedi gwreiddio yn fy nghalon. Ond ni wiw cydymliw :

" I will tear it from my bosom, though my heart be at the root."

Af yn ol ; ond mae'm calon yn gwaedu. Yn meusydd y côf cyfarfyddaf a hen gyfeillion ; ar ddolydd hirddydd haf ail chwareuaf a hwy ; ond gwelant nad yr un ydwyf. Y mae'r olwg arnaf fel un wedi newydd ddychwel o wlad bell ; y mae'm gwedd yn welw a'm grudd yn llaith ; nis gwelant hwy fod difrod y dyfodol wedi braenaru fy mynwes. Ond ceisiaf anghofio fy hun yn eu hieuenctyd hwy. Amhosibl i mi deimlo yn ieuanc fel cynt ; mae ystormydd y dyfodol wedi gado gormod o greithiau yn fy mron, ac o rychiau ar fy nghalon.

Ha ! dyma fy hen Gyfaill llawen o'r diwedd ; y mae gwên haner gellweirus ar ei wefus ; y mae direidi diniwed yn ei lygad ; y mae graen yr awyr a'r pridd ar ei ruddiau, a hoenusrwydd gwlad ac ieuenctyd yn ei osgo. Wyt, hen Gyfaill, yr wyt ti yn dal yn ieuanc fyth yn nhir Eden adgof. Nid yw amser wedi menu arnat ; yr wyf wedi gweled ugain o auafau yn fwy na thydi ; yr wyf wedi rhodio glannau afonydd dieithr lawer blwyddyn faith, a thi yn byw fyth ar lannau brwynog Clettwr. Yr ehedydd a'r gôg, y wawr a'r hirddydd yw dy gymdeithion. Nid oes afiechyd fyth yn gwelwi dy foch. Ni wyddost am ddyheadau afresymol y byd ; ni freuddwydiaist erioed freuddwydion ffol uchelgais. Ni welaist fryn uwch na hen fryn dy ardal

enedigol; felly, ni wyla'th galon am gopâu nas gwelodd erioed. Ti weli flodau'r gôg a'u fflur glasgoch tyner yn tyfu ar lan yr afon yn y gwanwyn, ac ni ddyhei am rosynau gorwych y palas. Glan yr afon wledig yw dy rodfa, ac ni flinir dy fron gan hiraeth am lwybrau clod a gogoniant. 'Swn dŵr hen Glettwr glau' yw dy fiwsig, ac nid yw cerddi'r chwareudai a miwsig maswedd y dinasoedd fyth yn dy hudo; gwlith y nefoedd yw dy berlau, a ser yr haf-nos yw'r gemau a gâr dy galon. Nid yw neuadd o farmor yn agor ei dôr i obeithion ofer dy fron, ond cyfyd Orion uwch dy ben, ac y mae neuadd odidog y nôs yn fythol agored i'th enaid. Cymer drugaredd arnaf fi, hen bererin sydd wedi crwydro gwlad a gorwlad am ugain o flynyddau meithion; cymer fi yn ol i dy fynwes. O, Gyfaill anwyl y dyddiau gynt. Y mae dy galon yn nwyfus ac iach; nid oes yr un Olwen erioed wedi dyfod heibio dy ddol a'th hudo ar lwybr meillionog ag ofer i gors anobaith. Gad i mi glywed swn dy chwerthiniad iachus; boed i'th gellwair naturiol, megys telyn y doethawr, yru ymaith yr ysprydion o'm gwydd. Iacha fy hen galon glwyfus a'th lafar caredig, O Gyfaill fy mebyd.

Ugain o flynyddau yn ol euthum yn mhell oddiwrthyt, gan gymeryd fy aden, fel gwenynen, i gasglu mêl hyd y ddaear. Casglais lawer o fêl, ond mwy o wermod. Hawdd genyf adael y baich yn ol, a dyfod atat yn wag, ond blinedig. Gafael yn fy llaw, Gyfaill yr amser gynt; na âd i'r presenol creulon fy nghipio yn ol o feusydd adgof; dymunaf aros gyda thi. Yr wyf yn gweled gormod o'r brad y tu ol i'w hudoliaeth. Dal fy llaw yn dŷn, yn dŷn; cadw fi ar y llwybrau gwledig; gâd i mi wrando murmur y nant ar y graean, ac arogli'r mintys ar lan yr afon, a gweled y brithyll yn y dwr, a'r aderyn yn y drain. Gafael yn dŷn yn fy llaw, a chadw fi fyth ar ddol y gorphenol hyfryd.

* * * * * *

Ond diflanodd yr hud. Ah! Gyfaill anwyl. Pa le'r wyt? Mewn mangre unig ar ben y bryn y mae twmpath gwyrddlas; heb ddim ond gwylltflodau'r mynydd a gwlith y nefoedd yn addurn arno. Yno, yn dawel, dawel, heb air, heb wen, a'th wefus ieuanc yn fud am byth. Yno yr wyt yn gorwedd. Ah! orphenol; beth ydyw? Dim ond mynwent, lle'r huna degau o gymdeithion bore'm bywyd, a thi y penaf o honynt oll, yn eu mysg. Trodd chwerthiniad yr awel yn wylo, a pherlau'r gwlith yn ddagrau, a phlyg y blodau eu pennau yn isel uwch dwfr yr afon. Cyfyd y ser yn drist yn yr hwyr gan syllu yn fud ar fangre pen y bryn: canys yno yr huna efe, Gyfaill bore'm hoes. Gwywodd blodau'r gôg; y mae dwr yr afon wedi myned yn lleidiog gan lwch y blynyddau. Y mae'r bwthyn gwyn wedi llwydo, a'i furiau wedi malurio. Y mae'r hen dir wedi gwelwi—a "drych o dristwch yw edrych drosto." Dof yn ol, yn bererin trist a gwelw. i ddiffeithwch y presennol. Nid oes ond dieithriaid yma; tramwyaf yn mlaen i ben fy siwrne wrth fy hunan. Ble mae'r rhosyn

ddymunwn ddwyn yn ol i'r gorphenol yn fy llaw? Edrychaf ar y pren, nid oes ond y graith, lle bu unwaith flodeuyn.

Gyfaill y gorphenol, rosyn y presenol, gydymaith y dyfodol: ffarwel oll, teithiaf yn fy mlaen heb obaith, heb ddyhead, heb uchelgais. Nid yw'r ddaear ond anialwch; ond mae'r nefoedd dragwyddol uwch fy mhen. O na bai nefoedd yn fy nghalon hefyd! Gan mai yn fy mynwes fy hun y mae chwilio am ddedwyddwch, yno y chwiliaf am Dduw, ac am y nefoedd.

* * * * * *

Y mae lleni'r nos eisoes wedi disgyn; nos falmaidd o Hefin ddihafal. Dichon fod yr ëos eisoes wedi esgyn i'w chynefin ganghen yn barod i berori ar awr y canol-nos. Y mae tragwyddoldeb yn llefaru yn y ser; y mae'r ddaearen, megys temigyn yn ymdroelli drwy'r ffurfafen, a minau, ddistadlaf bryfyn arno, yn cwyno, yn wylo ac yn ochain. Pa beth yw dyn yn nghanol yr eangderau anfeidrol? beth yw'n mân ofidiau ni ond y crychyn lleiaf ar for diderfyn y greadigaeth? Beth wyf fi i ddisgwyl anfeidroldeb i wrando fy ochenaid? Ac eto daw i'm cof rywbeth ynghylch syrthiad aderyn y to i'r ddaear; a bod yna Un a geidw gyfrif o'r ffaith. Edrychaf eto i'm mynwes; y mae'r gofid o hyd o'i mewn. Beth ydyw? Colli rhosyn. Y mae fy ffenestr yn agored ar y stryd. Pa beth a glywaf? Llais amddifad yn llefain am fara. Nid yw yn holi am ei dad nac am ei fam; gall fyw heb y rheiny. Ond mae dagrau ar ei rudd, ac y mae ei fochau yn welwon, mor welw a chregin meirw glan y mor. Y mae arno chwant bwyd; ond nid oes neb a'i clyw. Brysiaf allan, gwrandawaf ar ei stori; cymeraf ef am nodded; rhoddaf iddo gyfran o'm hystor; sychaf ei ddagrau, y mae'r gwrid yn dychwelyd i'w ruddiau; lle bu llwydni a newyn, gwena rhosyn coch. Nid hiraethaf mwy; deued gauaf a'i ddryc-hin a'i wlaw a'i oerfel; os collais rosyn a Chyfaill, cefais eraill yn eu lle. Hunanaberth yw y rhosyn, a dyn lle bynag ei câf yw'r cyfaill.

S.

DYNES DDUWIOL.

Petai rhyw fardd duwiol ac o'r 'un gwaed a'r awen wir,' wedi bod yn trigianu heb fod yn nepell oddiwrth anedd y ddynes odidog hon, ni adawsai i laswellt dyfu ar ei beddrod cyn nyddu ei bryddest dlos i anfarwoli ei choffa.

Ond os llithrodd heibio'r 'Glyn' ac 'Erw Duw' yn ddisylw i wr o brydydd, ac yn ddiarwybod i 'Urdd y Beirdd,' er hyny, erys Salm ei bywyd, gwarcheidid hono gan ei cheriwbiaid. Ber fu ei hoes, ond gloewed llosgodd ei fflam. Maluried bysedd geirwon

amser ei beddfaen hardd uwchben ei 'hargel lwch,' a throed llaw greulawn anghof y fan yn dwmpath gwyrddlas, neu'n bantle dinod llwm. Ni ddiffydd mwyach ; erys etifeddiaeth mwy na'r 'ddwy lythyren' frau ar 'gareg arw' ar ei hol, a gwasgerir ei henaint o flychau amgenach nag awenau beirdd Ceridwen, a cherfir ei henw ar farmor gwell, a chan law mwy celf na'r crefftwr cain.

Dim ond ysgwyd pren ei bywyd,
Ddarfu'i ddyrnod Angeu wneud ;
Nes i'r sawr o ffrwythau 'i hyspryd
Wasgar hanes heb ei ddweyd.
Ei grasusau a'i rhinweddau,
Gludir heddyw gan y gwynt ;
Tonni mae ei pheraroglau
Dros y llwybrau gerddodd gynt.

Pe medrem dynu darlun teg, byw a chyflawn o honi mewn print, caem ddefnydd llawer eglureb dlos o blith ei gorchestion distaw. Cyfres o wrhydrau didrwst ei chalon dduwiol oedd grasusau ei bywyd. Pe dilynem yn ddyfal a ffyddlon ei chamrau dros ei rhawd, caem wel'd ei gyrfa yn dryfrith o actau arwrol. Prawf ei chân a'u chyni hynyny ; ei llafur a'i chystudd cyson dynodd gymaint o fiwsig allan o dannau ei thelyn ber ; ac agorwyd ei bedd ar haner canu ei halawon O na chaem ddawn ei hangel i liwio ysblander ei bywyd gloew, dlysed ag y darfu i ras ei enfysu.

Gwyddom y gallasai'r Hybarch R. J. Jones, M.A., sef ei gweinidog parchus fod wedi gwneud ystalwm ; oni buasai am gynildeb y gelf. Peryglus ydyw i fugail ddechreu gwau ei alar-gerddi ar ol ei braidd. Ni fuasai 'diwedd byth ar swn ei delyn aur.'

Dynes lathraidd,fuan-syth ei hosgo, eurgaidd ei cham, gyda gwyneb hirgul wedi ymwelwi dan forthwylion ei chur oedd Mrs. Davies. Wyla'r Cynon eto o'i chynar golli, ac O ! mor wag yw'r Hen-Dy-Cwrdd heb swn ei pheraidd lais a'i gwylaidd wên ! Priodol iawn gallesid ei galw yn

GENHADES HEDD.

Ni agorai argae fyth i gynen, ac ni chasglai danwydd fyth i gynud ymryson.

Nis gwyddai ddim am y grefft anwar o hau hadau distryw a chwynu rhinwedd. Ni fu trothwy drws ei phabell erioed yn gyrchfan i gludwyr ystraeon ac ymwelwyr chwedleu-gar. Aroglai bla o bell ; a deallai swn y storm gyda chwyth ei chwa. Agorodd lawer bedd i sen ac enllib, a rhwystrodd lawer safn i lifo truth ac athrod. Mwy cydnaws a'i chalon rasol hi oedd croesawu engyl dan ei chronglwyd. Dwyfoled arlwyai fwrdd i geriwb, a hidlai ddagrau wrth colli swn ei sang. Ie, seraphiaid y gwynfyd oedd cwmni Mrs. Mary Davies, ac nid ellyllon annwn. Y meddyliau goreu, y syniadau, y teimladau goreu, y llyfrau a'r dynion goreu, yr egwyddorion goreu oedd ei seraphiaid hi : a'r delfrydau sanct-eiddiaf oedd ei cheriwbiaid ; a diau iddi ddyfod yn gynefin iawn a'u gosgordd-lu. Ond nid oedd yn fwy o genhades hedd nag ydoedd o

GRISTIONOGES HAEL.

Gymaint enwaedodd Duw ei chlust i glywed swn ochain a gruddfan. Tywalltai olew beunydd i glwyfau dynion : a lliniarid eu harchollion a'i mel a'i gwin mewn amrantiad. Nid duwinyddiaeth oedd ei chrefydd hi ; nid cred a dogma, ond ffydd a chariad, yspryd a chalon roes gymaint o draed a dwylaw iddi hi. Llawer cardod gludodd yn nghudd yn nghil ei llaw yn ngwyll y nos at ddrws y tlawd. Ni chai'r anghenus guro ei drws yn ofer, ac ni chai'r cardotyn droi ei gefn yn waglaw oddiar ei throthwy. Meddylia hi y gallasai fod yn rhanu ei bara, ac yn porthi angelion Duw. Credai'n gryf yn y grefydd borthai'r tlodion a'i bara, ond ni choeliai nemawr yn ngras y gwr omeddai gwpanaid o ddwfr i'r sychedig. Adyn gresynus oedd hwnw yn ei golwg. Ofnai o

hyd fod gormod o bregethu ar lafar a rhy fach o fyw ein crefydd. Haeriai hi mai crefydd yr ail-filldir oedd i efengyleiddio'r byd. Afrad oedd cecraeth y croesffyrdd a gwagddadleuon conglau'r ystrydoedd ganddi, tra gwyddai am adfyd dyn a chyni'r byd. Gweini wrth echwyn gwely'r claf, a lliniaru loes y clwyfus a chodi croes yr ysgwydd anafus. Dyna wnai hi, a druan o honi, yr oedd ei chystudd hi yn gymaint o groes a'r un. Cofus gan yr ysgrifenydd am dani yn ystafell y meddyg yn cyfnewid cwynion ag ef am blauau'r cylla, ond sirioled oedd ei hyspryd, a chryfed oedd ei gobaith. Bron na chanai o dan ei chur. Ni chablodd dan ei chlwyf, ac ni wadodd 'Arfaeth Ior' o dan ei harcholl. Nis gwyddai ddim am duchan o dan ei thrallod, na gruddfan dan ei loes. Cuddiai ei phoen a'i gwên, a chariai ei chroes dan ganu'n aml. Bu ei sylw syml, ei gwrando astud, a'i gwen hapus yn gynorthwyol ganwaith i'r pulpud. Mor foesgar fuasai ei hamnaid, ac mor ddefosiynol fuasai *Amen* ei phen i'r pregethwr. Buasai Cymru wedi codi gloewach cewri yn ei phulpud pe wedi cael gwrandawiad gwell i'w magu a'u hysprydoli. Ffyddloned a chysoned gwelsid Mrs. Mary Davies ar Fynydd Seion, a phrydloned cyrhaeddai'r oedfa ac achubai ei moddion gras. Unai'n wastad a'r saint i foli Duw yn yr emyn cyntaf, ac ni adawai'r addoldy fyth o flaen yr 'Amen.'

Amlygodd ei hun yn famol iawn i blant yr eglwys, a nawddogai'r ieuainc fel y garddwr am had ei ardd. Yr oedd ganddi law ddeheuig i drin y planhigion, a gwyddai'r ffordd i fwrw achles ambell dro wrth fon rhyw frenin bren i'w chadw'n ir a thirf. Ni flinodd ei eglwys un amser ag ysfa am gylch neu swydd. Bod yn wasanaethgar o'r golwg oedd ei huchelgais hi pe cawsai guddio ei hun. Ni chwerylai a neb parthed y gwaith ddewisid iddi wneud, ac ni phwdai ychwaith er dim am na chai fod ar y blaen i'w chydryw. Bu hi a'i phriod, Mr. Ebenezer Davies, am flwyddi lawer, yn lanhawyr y capel, a thrwy gydol ei llesgedd ni arbedodd ei llaw i loewi'r deml i foddlonrwydd Duw a'i Saint.

Rhwyddineb, parodrwydd ac haelfrydedd nodweddai ei holl ymwneud a chrefydd. Yr oedd culni, trais a musgrellni yn elfenau nas gwyddai beth oedd bod yn eu gafael a'u caethiwed hyd y nod am awr o'i bywyd. Ond gwelwyd yn nodedig o amlwg yn ei chrefydd hefyd

YR ARWRES LEDNAIS

Tybed y daw arweddau arwrol bywyd gael ei lle ar raglen Bardd Newydd Cymru Fydd. Prin yw lle yr Arwr-gerdd eto yn Llenyddiaeth Cymru. Serch i Gwalia fagu ei beirdd rhwng ei mynyddau brenhinol a'i bannau tywysogol; prin mae ystyr eu cyfaredd a'u cyfriniaeth, eu nheges a'u cenhadaeth ar eu cynyrchion. A pherygl y bardd ydyw cyfyngu'r Arwr i'r rhyfelwr,—ysywaeth mai i filwr omeddodd weithio i gynal ei fam weddw, ac a drodd ddaear Eden yn faes y gyfaflan, ac a dywalltodd a'i gledd waed gwirion ei frodyr diniwed yn swn y rhyfelgri, ysgatfydd mai i hwnw cenir yr arwrgerdd, ac nid i'r fam lesg, galeda ei dwylaw ac a drocha ei deg bys gyda'r wawr bob bore i gadw tlodi a newyn allan o'i anedd unig. Nid yw Ceridwen wedi rhoi gweledigaeth i'r Awen Gymreig i ganfod ochr foesol arwriaeth. Telynegion Serch ac nid arwrgerddi myn tannau ei thelyn ganu, a thybia'r beirdd hyd heddyw mai cabledd os nad anfri i'r awen fuasai troi'r farwnad yn arwrgerdd. Mae genym gof byw am ein gwrthddrych yn cyflawni gorchest haeddai arwrgerdd yn goron a gwobr am ei gwrhydri unwaith.

Ar noson oer a loer-lân, ac ar awr ddi-wlith mewn oedfa lle'r oedd mwy o luchio gweddiau ar draws eu gilydd mewn ysbryd ymliw nag oedd o wir addoli Duw, y cododd Mrs. Davies fel tywysoges urddasol yn ddewr a gwylaidd ar ei thraed i siarad iaith ei chalon. Clywed blaenor gyda'r

'Corph' yn gwarafun i dafod "*Sosin*" i ymdroi yn ei daflod ar awr weddi, oedd yr achlysur. Buasai hanes amgylchiadau'r araeth hono o eiddo'r ddynes dduwiol hon yn ddigon o ddefnydd ysgrif neu bryddest faith ynddi ei hun. Nis gwyddom a ddarfu iddi nyddu cân erioed, ond barddonodd yn ddyfnach na thrwy rhigymu cerdd ar fesur ac ar odl y noson hono. Ie, pan torodd llanw araeth ei chalon frwd dros yr argaeau, ac y trodd y rhiadrau yn win dros geulanau ei gwefus bur. O ! y noson fyth-gofiadwy ! Cysegrodd yr araeth yr oriel lle safai'r noson hono ; a braidd nas gwelem y seddau o'i chylch yn gwelwi gan ambell fflach wreichionai ei difrifwch. Nis gwyddem ar ambell foment pa un ai pefru'n serlog neu'n cyneu mellt oedd ei llygaid. Yr oedd Capel eang a phrydferth Ebenezer ar dori gan y dyrfa enfawr, yn nghanol berw a newydd-deb y diwygiad. Yr oedd yr heolydd yn dduon gan y minteioedd oedd yn troi yn eu holau wedi eu siomi wrth y drysau. A Nadolig 1904 ar y trothwy, yr oedd y dolydd yn lwyd-wyrdd, a'u glaswellt yn nghlo dan farug, ac yr oedd ser y nen fel pe yn edrych yn syn ac yn gwrando ar garolau'r 'preseb' yn dechreu dadseinio yn y gwynt, a themlau Bacchus yn wylo'n hidl ar ol eu telynau halog, a'u canu serch a maswedd. Dyma'r noson amlygodd adnoddau arwrol ein Cristionoges, ac a ddatguddiodd grym ei chred a'i ffydd yn ngwerth ei henwad, pan anelwyd cymaint o fagnelau i anrheithio ei gaerau. Ond, druded oedd ei chrefydd a'i chorlan yn ei golwg fel nas mynasai gredu y gyrai Duw ddiwygiad beru i neb eu sathru. Ni oddefai rhyfyg y syniad y mynai'r Nef i ddeffroad cenedl i ymsathru ar olud a thraddodiadau ei henwad. Gwell oedd gan ein chwaer heb yr 'Adfywiad' dysgai ddynion i gablu adnoddau eu gilydd ac i enwadau i fathru etifeddiaethau eu gilydd.

Nid '*frugal fares* a *chilly embers*' y Dr. Horton oedd Undodiaeth yn ngolwg Mrs. Davies. Gwell fuasai ganddi am gwmni'r 'cwmwl tystion' Undodaidd, Emerson, Channing, Parker, Drummond a Martineau, na bwrw ei choelbren i reng y gwr lefarodd y truth enllibol uchod y dydd o'r blaen yn Nghaerludd.

Dichon y dychwelwn at hanes arwriaeth ei haraeth yn y deffroad eto.

PARCWYSON.

Aberdar.

GOGWYDDIAD YR OES TUAG AT DDIGRIFWCH.

[PARHAD.]

3. Gwelir yn amlwg eto dueddiadau yr oes *mewn perthynas a'r cyrchfanau yr â gwahanol drigolion y wlad a'r dref i fwynhau a threulio eu horiau hamddenol a'u gwyliau ynddynt.* Yn bresenol mae gan y rhan fwyaf o'r boblogaeth ryw gymaint o amser neillduedig iddynt eu hunain fel gwyliau. Ar ol gweithio yn galed a dyfal am fisoedd yn y pyllau glo, y masnachdai, a'r ffermydd, mae yn ofynol wrth ychydig seibiant yn achlysurol er adgyfnerthu y corph, y meddwl, a'r yspryd. Ni

ddisgwylir i'n gweithwyr dreulio eu holl amser o un flwyddyn i'r llall mewn gwaith parhaol, oblegyd drwy hyny, gwneir hwy yn fwy o beirianau nag o ddynion. Mae yr amser penodedig yma oddiwrth lafur beunyddiol wedi ei amcanu yn benaf i'r bobl wneud y defnydd goreu o hono er eu budd a'u lles eu hunain, er cael etifeddiaeth lwyr o gorph iachus heini; ac hefyd drwy hyny, feddwl, ac yspryd iachus a nwyfus. Ond pan y cymerir i ystyriaeth y dull a'r modd y treulia rhan enfawr o boblogaeth y dref eu gwyliau, siomir ni yn arw wrth feddwl mai ychydig feddylia niferoedd lawer o honynt am yr hyn a fyddai yn fwyaf tebygol o droi allan o les a budd iddynt; yn iechydol a meddyliol. Ar ol treulio rhan helaeth o'r flwyddyn yn mysg swn, berw, a dwndwr y dref, gwelir ein pobl yn tyru eto, pan y caniata yr amgylchiadau, ar adeg eu tymhor gorphwys i ganol swn, berw, a llygredd rhyw dref arall. Wrth ddewis eu lle i fyned i dreulio eu pythefnos neu fis, ni chymerant fawr o ystyriaeth pa le y buasai yn oreu iddynt fyned; eithr tueddir hwynt i fyned gyda'r lluaws lle y cant fwyaf o fywyd a phleser, a hwnw y rhan amlaf yn gynwysedig o wagedd bron yn hollol. Anaml y gwelir y niferoedd yn tyru i ben mynyddau iachus Ceredigion, a siroedd eraill i sugno awyr bur ac hoender i'w cyfansoddiadau ar rosdiroedd ein gwlad, y nef wybrenol yn hongian yn nghanol ei gogoniant uwchben, y borfa a'r grug yn garped melfedaidd dan eu traed, a sain cân yr ehedydd ac adar eraill yn disgyn yn wefreiddiol ar eu clustiau. Na, nid yn y fath sefyllfa ac ystad o burdeb y gogwydda yr oes bresenol i dreulio eu horiau a'u hwythnosau hamddenol. Gwelir y werin wrth y miloedd yn ymgasglu i ryw drefydd pellenig ar y dybiaeth eu bod yn myned i fwynhau awelon balmaidd glàn y môr ac i adenill hoender a nwyfiant corfforol. Ond mewn gwirionedd, teimladau eraill ac awydd am bethau israddol i hynyna a'u denasant i'r cyfryw leoedd. Yn yr *holiday resorts* yma canfyddir ar bob llaw olion ac arwyddion gweithiau dyfeisiol er hudo a denu pobl atynt i wario eu harian, ac i raddau i niweidio eu hiechyd, eu buchedd, a'u cymeriad. Pa iechyd ddisgwylir gael mewn lleoedd sydd yn orlawn o ymwelwyr ar adeg gwyliau yr haf? Mewn gwirionedd, nid cyrchfanau iechyd ydynt o gwbl, ond cyrchfanau gau-bleserau, a gwageddau ffol y byd, yn mha rai y gyrir yr ymwelwyr, bron yn anymwybodol iddynt eu hunain, risiau yn is o lwyfan bywyd rhinweddol a phur.

I rai sydd wedi eu breintio gan ffawd yn well na'u cydfrodyr, mae trefydd y Cyfandir yn atdyniadol iawn iddynt. Wrth gwrs, deillia llawer o fudd a gwybodaeth i'r sawl a gymerth deithiau i wahanol drefydd a gwledydd y byd. Yr ydym bron wedi ein cau allan oddiwrth genedloedd eraill y byd gan natur, ac felly tueddir ni i fod yn rhagfarnllyd mewn perthynas a llawer o bethau. Yn ddiamheu casgl yr ymdeithydd lawer o wybodaeth ar ei deithiau fydd yn sicr o fod yn fuddiol iddo yn y dyfodol; ond ar y llaw arall y mae perygl mawr i'r sawl a dramwyo i fyned i fewn yn ormodol i fywyd isel, llygredig llawer o drigolion y Cyfandir. Y mae Cymru, hyd eto, wedi bod yn seren ddisglaer yn nghanol ffurfafen gwahanol genedloedd y byd, mor belled ag y mae ei buchedd, ei bywyd, a'i chrefydd yn myned, ac y mae yn resyn meddwl os y caiff chwaethau isel, a gwael y cenedloedd cyfagos, megys y Ffrancod a'r Yspaenwyr, le i ymsefydlu yn meddyliau a chalonau meibion a merched Gwalia. Yn wir, mae yna le i ofni fod perygl dirfawr o'r tu yna, a mawr hyderwn a gobeithiwn y cyfrynga rhyw alluoedd i wrthsefyll temtasiynau o'r fath rhag i Gymru golli ei pharch, ei anrhydedd, a'i chrefydd, a syrthio i lawr i arferion drwg, pechadurus, a dinystriol.

(4). Gan edrych ar y cwestiwn o du arall canfyddwn *dueddiadau yr oes at y digrifol mewn llenyddiaeth.*

Nid oes angenrhaid i ddweyd fod llawer iawn mwy o ddarllen yn y dyddiau hyn nag oedd yn y gorphenol. Mae pob math o lyfrau, cylchgronau, wythnosolion, a'r papyrau dyddiol wedi dyfod mor rhad erbyn hyn fel nad ydynt allan o gyrhaedd nemawr neb. Mae yn rhaid i'r werin erbyn heddyw wrth ei phapurau a'i llenyddiaeth, a mawr ddiolchwn am fod y fath fanteision a bendithion wedi dyfod mor gyffredinol. Fel y dywedodd yr awdwr "Reading maketh a full man" nis gellir gor-ddweyd am wirionedd y gosodiad. Y mae yn rhaid i bawb erbyn heddyw, geisiant am swyddi a safleoedd mewn gwahanol leoedd a galwedigaethau, fod wedi darllen yn helaeth, nid yn unig yr hyn sydd angenrheidiol yn union gyrchol i gyflawni eu swyddi yn deilwng, eithr mae yn ofynol arnynt fod wedi gwneud y defnydd goreu o'u hamser er sicrhau gwybodaeth ychwanegol, os ydynt am fod yn aelodau defnyddiol ac anrhydeddus o gymdeithas. Yn sicr y mae ystor o wybodaeth gesglir wrth ddarllen papurau a llyfrau buddiol yn gymorth nid bychan i bawb ar daith eu bywyd. Mae y duedd yma i ddarllen wedi cymeryd gafael gref yn y genedl erbyn hyn, ond ofnir fod gormod o elfenau y digrifol, a'r isel o bosibl, yn llenyddiaeth gyffredin ein gwlad. Gwerthir miloedd lawer o'r "Penny Dreadfuls" a'r Novelettes israddol yma ar hyd a lled y wlad yn wythnosol. Y mae darllen llyfrau buddiol a dyddorol yn gaffaeliad mawr ac yn gysur a phleser uwchraddol i'r sawl a'u darlleno, a goreu po fwyaf o ddefnydd a wna trigolion ein gwlad o honynt; ond y mae darllen ac astudio llawer o'r llenyddiaeth isel a llygredig yma gynygir yn feunyddiol i'r bobl yn sicr o wneuthur dirfawr ddrwg i'r genedl. Trwy ddarllen y cyfryw hauir llawer o hadau drain a mieri pechod yn meddyliau a chalonau tyner ieuenctyd a phobl ein gwlad. Diameu fod yna lawer gormod o ddarllen ar nofelau is-raddol; ac er o bosibl na theimla llawer eu bod yn gadael effeithiau a dylanwadau drwg arnynt, ac aml y clywir am lawer hogyn a geneth ieuanc wedi gwyro o lwybrau uniondeb a rhinwedd trwy roddi gormod o'u bryd ar y gwag bleser o ddarllen llenyddiaeth wael.

Mae llawer lleidr pen ffordd a mwrddwyr wedi dechreu eu gyrfa ar i waered oherwydd darllen rhyw wag-sothach o'r fath, ac felly nis gellir bod yn rhy wyliadwrus pa ddosbarth o lyfrau, &c., y medrwn sugno gwir bleser iachus a naturiol. Disgyna cyfrifoldeb mawr ar rieni ein gwlad, athrawon ein Hysgolion Sul a'n blaenoriaid yn y cyfeiriad hwn. Nid yw yr ieuainc wedi dyfod i oedran addfed i bwyso a mesur gwerth a dylanwadau gwahanol fathau o lenyddiaeth, ac hyderir y gwna ein hathrawon yn y dyfodol gymeryd mwy o sylw o bwysigrwydd y cwestiwn agos hwn. Bydded i'n hieuenctyd gael eu dirwyn i fewn i ddarllen llyfrau buddiol ac o safon. Bydded iddynt fagu archwaeth bur ac iachus at lenyddiaeth a barddoniaeth uwchraddol, modd y gallant yn achlysurol sugno mel pleser o flodion meusydd eang llen. Yn wir, nis gellir dymuno am burach cysur nag a geir wrth fyfyrio uwchben gweithiau ein beirdd a'n llenorion goreu trwy Gymru a Lloegr. Y mae "Coll Gwynfa," "Taith y Pererin," a "In Memoriam" Tennyson yn ogystal a llu eraill o'r fath yn werth anmhrisiadwy i bawb a'u hastudiant; ac yr un modd y mae darnau tlysion Ceiriog, Gwenffrwd, Ieuan Glan Geirionydd, a Phantycelyn yn drysorau euraidd, y rhai ddylasai gael lle amlwg yn meddwl, cof a chalon pob gwir Gymro.

Heblaw hyn credwn nad yw Llyfr y Llyfrau yn cael ei le priodol yn llyfrgelloedd y werin y dyddiau rhain. Ofnwn yn fawr nad oes yn awr gymaint o ddarllen arno ag a fu, ac os gwir hyn, diamheu fod dyfodol ein cenedl yn sicr o ddioddef, a syrthio yn ei buchedd, ei moesoldeb a'i llwyddiant. Pa drysorau mwy pur sydd yn bosibl eu cael nag a geir y tu fewn i gloriau yr hen Lyfr sanctaidd. Credwn ei bod yn an-

mhosibl bron dramwyo llwybr bywyd yn rhinweddol a sanctaidd heb yr arweiniad a'r cysur nefolaidd gawn yn hyn o fyd. Cynghorwn ac anogwn ein cydbobl i'w ddarllen a'i astudio yn feunyddiol, ac haws fydd i'r genedl drwy hyn rodio llwybrau uniondeb a sancteiddrwydd. Gymru anwyl! bydded i ti, ar bob adeg werthfawrogi, edmygu, a pharchu dy hen Feibl sanctaidd, yr hwn drwy y canrifoedd sydd wedi dal goleuui'r Nef uwch dy ben, a thywys dy blant dros deithiau blinderus y llawr. Ieuenctyd Cymru! yn wastadol bydded i chwi wneud y defnydd goreu o'r hen gyfrol bur. Trysorwch gymaint o hono ar gof ag sydd yn bosibl, ac felly deuwch i etifeddiaeth o drysorau mwy gwerthfawr, aruchel, a gogoneddus nag sydd yn bosibl eu sicrhau yn un lle arall yn nghreadigaeth Duw.

3. Yn mhellach teimlwn fod gogwyddiad yr oes yn cyfeirio *i'r isel a'r gwael mewn digrifwch.* Gwelir y lluaws yn cyfeirio eu camrau wrth y miloedd, dan lywodraeth gwahanol flysiau i'r tafarndai a'r clybiau isradd. Dan ddylanwad ac effeithiau y diodydd meddwol sugnant yr hyn a gamenwant yn bleser, ond yn mhell oddiwrth hyny yn ngwir ystyr y gair. Treulia llawer amser gwerthfawrocaf eu bywyd a'u henillion yn mwynhau eu hunain mewn dulliau anifeilaidd yn y fath gyfeddach felldithiol. Nid oes angen dweyd mai meddwdod a'r fasnach feddwol yw prif bechod y wlad, a mam bron bob drwg y dyddiau hyn. Hefyd nid oes eisiau ymhelaethu yma ar ddylanwadau ac effeithiau y fath elyn dinystriol. Andwyir sefyllfa foesol a chrefyddol y wlad yn dost gan y fath oferedd a phechod. Mae yn resyn gweled cymaint o dyru gan y bobl ieuainc i'r lleoedd melldithiol hyn. Ar y dechreu, efallai, galwant i fewn yn achlysurol, ond, fel y tyfant i fyny, tyf y blysiau a'r nwydau yma yn gryfach gryfach ynddynt, nes yn y diwedd syrthiant yn ebyrth llwyr i'r blysiau difaol hyn. Gwariant eu harian, eu hamser a'u hiechyd yn ngwasanaeth y diafol; lle medrent, pe wedi cael tywysiad ac arweiniad priodol i fyny fod yn golofnau cedyrn yn muriau cymdeithas. Collant eu serch a'u helfen at unrhyw waith adeiladol cyhoeddus, yr hyn sydd yn ddirfawr golled ac yn niweidiol iawn i lwyddiant gwahanol gymdeithasau. Gwneir llawer o waith clodfawr gan y Byddinoedd Dirwest yma a thraw trwy y wlad; ond hyd yn hyn y mae banerau Bacchus a'i gadfridogion yn hofran bron mor fuddugoliaethus ag erioed. O na fyddai yn bosibl i'r gelyn bradwrus hyn gael ei ddiorseddu a'i alltudio yn ddiseremoni i draethau ebargofiant, modd y gallai y wlad fyw mewn awyrgylch mwy pur a rhinweddol ar ol ei syrthiad.

Y fath atdyniad sydd gan demlau y diafol er denu plant dynion i fewn i'w crafangau. Y muriau sydd addurnedig a darluniau goreurog, gorchuddir y llawr gan y carpedau mwyaf drudfawr, ac offer cerdd a rydd fiwsig melodaidd o'u tannau er hudo y ddynoliaeth i'r maglau dinystriol ac angeuol hyn. Mawr hyderwn y gwna pwlpud Cymru eto yn y dyfodol roddi sylw arbenlg i'r cwestiwn pwysicaf hwn, i geisio goleuo ac ysprydoli y genedl i fyw bywydau mwy rhinweddol, ac i gadw i ffwrdd oddiwrth y gwag a'r drwg bleserau gynygir i'r bobl yn feunyddiol gan yr hen elyn atdyniadol, eto creulawn hwn.

Tueddiadau at y digrlfol hefyd arweinia y lluaws i fynychu cyngherddau a chyfarfodydd o isel chwaeth. Anaml y gwelir y cyngherddau cysegredig mor lluosog a'r rhai y cenir, ac y perfformir pob math o faswedd ynddynt. I ryw gymaint graddau mae y naws yma wedi treiddio i fewn i gyfarfodydd cystadleuol ac eisteddfodau ein gwlad. Gwelir y tyrfaoedd yn ymgynull i'r eisteddfod, nid bob amser gyda'r unig amcan o gael budd, adeiladaeth a diwylliant oddiwthi, eithr yn hytrach er mwyn rhyw amcanion eraill, er efallai i ymbleseru ar ryw wag-fwyniant ag sydd wedi llithro i fewn yn lladradaidd i hen

wyl y Cymry. Bydded i ni fel Cymry yn wastadol ddal i fyny urddas ac anrhydedd ein cyngherddau a'n heisteddfodau, fel y profont yn fudd ac adeiladaeth i'r genedl, i greu chwaeth well a mwy aruchel at gerddoriaeth, barddoniaeth a llen fel ag y byddo i'r hen wlad gadw ei lle yn anrhydeddus yn mhlith cenedloedd y byd.

Gwelir drwy hyn, fod y ddynoliaeth yn ymfoddloni ar ystad isel o ddigrifwch yn gyffredinol. Gresyn meddwl fod sefydliadau a chyfarfodydd o radd uchel yn cael eu hanwybyddu i'r un graddau. Y mae lle i ofni fod yr hen gymanfaoedd wefreiddient Gymru gynt a'u hyawdledd, a'u gwresogrwydd a'u hysprydolrwydd yn araf golli ei nerth. Mae yr hen hwyl Gymreig a'r Amenau yn raddol ddiflanu o'n cyfarfodydd crefyddol. Rhyw deimladau rhyfedd o ddwys-hiraeth a galar leinw'm calon yn aml wrth feddwl fod yr hen gysegredigrwydd nodweddai addoliad ein tadau yn ymgolli o'r tir. Y mae yn ffaith anwadadwy hefyd nad yw y cyfarfodydd wythnosol a'r cyfarfodydd gweddi yn cael eu mynychu oddieithr gan ryw gyfran fechan o'u aelodau. Yn sicr, nid oes dim a rydd fwy o bleser pur ac esmwythder calon a meddwl na mynychu a chymeryd rhan fel y gallom yn y cyfarfodydd bendithiol hyn. Gymru, fy ngwlad, ymddihuna, a thafl ymaith y cysgadrwydd hyn sydd wedi cymeryd meddiant o honot. Gâd i ni eto deimlo a chlywed sain cân nefolaidd moliant i'r Goruchaf, yn lle y gwag-ganeuon sydd yn taro ar ein clustiau yn barhaus. *Ymddihatra* oddiwrth lygredd ac aflendid drwg arferion ag fydd yn sicr o gloddio tanat a'th ddinystrio, a gwisg am danat fantelli rhinwedd a daioni, fel y bo i'th breswylwyr sugno maeth ysprydol i'w dedwyddoli a'u cysuro ar daith eu bywyd, ac yna, ar ol ymadael a'r fuchedd hon i etifeddu a gwisgo coron cyfiawnder mewn gwlad "lle na raid ymado mwy."

Wrth ddiweddu hyn o sylwadau ar y testyn hwn, carem wasgu adref at feddyliau a chalonau ein cyd-wladwyr i feithrin ac i ddadblygu tueddiadau at yr hyn sydd oreu a dyrchafol mewn bywyd. Ohonynt hwy y gellir sugno gwir gysur ac hapusrwydd. Fel y crybwyllwyd ofnir fod y werin yn gogwyddo yn ormodol i gyfeiriad gau bleser, y rhai ydynt, wrth gwrs, dros amser, ac yna i ddarfod, gan adael ar ol, yn debygol, ganlyniadau niweidiol a pheryglus. Bydded i werin Cymru yn wastadol gadw i fyny urddas eu cyndeidiau, trwy greu chwaeth dda ac aruchel yn nghalonau ei phobl at yr hyn sydd ddyrchafol, rhinweddol, a Christionogol. Dwys erfyniwn, a gweddiwn am gael cymorth ac arweiniad tyner ein Hior i'n diogelu a'n cadw ar y iawn lwybrau, gan berffeithio ein hamcanion a'n hamddiffyn, er lles tymhorol ac ysprydol ein hunain; ac i gadw yn bur a dilychwin ein hiaith, ein gwlad a'n cenedl.

Mydroilyn, D.J.
Gwyl Ddewi, 1910.

Nid yw y rhai sy'n meddu llyfrau lawer
Yn more 'u hoes, braidd yn efrydu 'r haner.
Mae llwyrder yr efrydiaeth yn gymhesur
I brinder y manteision. Mwy yw 'r llafur,
A hirach filwaith yw y llinyn plymio,
Os culfor yw y ddysg;—gwna 'n llwyr ei chwilio.
Cwyd hwn bob cragen at ei glust feddyliol
A llwyr fwynhâ ei holl adseiniau nefol.—ISLWYN.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1910.

Cymerodd yr Arholiad le prydnawn Sadwrn, yr 16eg o Ebrill. Cafodd tair-ar-ddeg o ysgolion eu cynrychioli yn yr Arholiad—un yn llai na llynedd. Yr oedd rhif yr ymgeiswyr yn llawer llai na llynedd, ond yr oedd un peth yn nodedig yn nglyn â'r Arholiad eleni—aeth y plant, gydag ychydig eithriadau, drwy eu gwaith yn rhagorol. Mae y plant a'r athrawon i'w canmol am eu llafur.

Hyderwn weled yr ymgeiswyr yn lluosocach y flwyddyn nesaf eto.

L. WILLIAMS,

Ysgrifenydd Adran yr Ysgol Sul.

ALLTYPLACCA. ARHOLWR—MR. T. OSWALD WILLIAMS, GWARNANT.

Cyfanrif 25.

Safon I.—Dosparth I. — Sarah Hannah Jones, Martha Ann Thomas, Gwinnie Ann Price, Mary Letitia Price, Elias Davies, David Arthur Morgan, Gwilym John Evans, John Jenkins, Josiah James Rees, Evan Tom Davies, Tom Jones, David Morgan Rees, Willie Bateman Rees, Daniel Rees Evans, Howell Price Evans.

Safon II.—Dosparth I.—Sarah Hannah Jones, Martha Anne Thomas, Elias Davies, David Arthur Morgan, Gwilym John Evans, John Jenkins, Josiah James Rees, Tom Jones, Daniel Rees Evans, Howell Price Evans.

BRONDEIFI. ARHOLWR—PARCH. D. EVANS.

Cyfanrif 27.

Safon I. — Dosparth I. — Hilda Davies, Hannah Jane Lloyd, Dolleen Davies, Jane Mary Davies, Mary Ann Parry, Margretta Jones, Sarah Mary Jones, Gwen Ellen Jones, Annie Davies, Minnie Williams, David John Evans, Johnnie Davies, David Josua Davies, Evan David Parry, David Tom Williams, Egbert Davies, David Christmas Evans, Johnnie James.

Safon II. — Dosparth I. — Margretta Jones, Hannah Jane Lloyd, Mary Blodwen Davies, Sally Davies, Annie Davies, Jennie Davies, Mary Anne Jones, Henry Williams, Egbert Davies.

CILIAU AERON. ARHOLWR—MISS E. HOWELL, DOLBOIDY.

Cyfanrif 5.

Safon I.—Dosparth I.—Olwen Evans, Sarah Jane Davies, David Edwin Davies, James Davies, Emrys Hughes.

CAERONEN. ARHOLWR—MR. EVAN WALTER DAVIES, LAMPETER.

Cyfanrif 9.

Safon I.—Dosparth I.—Mary Jane Jones, Sarah Helen Davies, Helen Davies, Nancy Davies, Dinah Davies, Sarah Ellen Jones, David John Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Evan John Jones, Watkin William Davies

CAPELYBRYN. ARHOLWR—J. THOMAS LEWIS, C.M., PENCARREG.

Cyfanrif 19.

Safon I.—Dosparth I.—Sarah Jenkins, Lizzie Evans, Sarah Jane Price, Elizabeth Hannah Evans, Margarite Jemima Davies, Sarah Evans, Rees Davies, William Ellis Thomas, William Jones, David Brinley Evans. Dosparth II.—Sarah Jones, Martha Jane Thomas, Evan Emrys Davies, Evan Evans.

Safon II.—Dosparth I.—Nesta Anne Davies, Mary Elsie Evans, Rachel Mary Evans, Kate Jones, Hannah Evans.

CRIBYN. ARHOLWR—PARCH. L. WILLIAMS.

Cyfanrif 39.

Safon I. — Dosparth I. — Sarah Jones, Anne Jones, Jane Evans, Rachel Mary Harries, Esther Evans, Nancy Williams, Nellie Jones, Jane Hughes, Mary Hughes, Ellen Mary Jones, Hannah Mary Jenkins, Elizabeth Mary Jones, Margretta Jones, Gwenllian Evans, Rachel Mary Evans, Evan Davies, Tom Davies, David Jones, James Herbert, Daniel Davies, James Evans, Tom Williams, Evan Howell Jones, John Evans, David John Jones, Tom Lewis.

Safon II.—Dosparth I.—Ellen Mary Jones, Jane Hughes, Elizabeth Mary Jones, Margretta Jones, Gwenllian Evans, Esther Evans, Rachel Mary Harries, Evan Davies, Tom Williams, John Evans, Daniel Davies, James Herbert, David Jones.

CAPELYGROES. ARHOLWR—PARCH. J. DAVIES.

Cyfanrif 13.

Safon I.—Dosparth I.—Jane Mary Davies, Nancy Evans, Lizzie Evans, Margaret Jones, Gwilym Jones, David James Evans, John Morgan, Evan Morgan, David Albert Jenkins.

Safon II.—Dosparth I.—Lizzie Evans, David John Davies, Evan Morgan, Benjamin Evans.

CAPELYFADFA. ARHOLWR—MR. D. DAVIES, PANTDEFAID.

Cyfanrif 19.

Safon I.—Dosparth I.—Nancy Evans, Rachel Jones, Mary Cheetham, Hannah Jones, Mary Evans, Johnny Jones, Enoch Evans, John Jones, David James Griffiths. Dosparth II.—Daff Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Annie Ellen Thomas, Minnie Thomas, Anne Jones, Hannah Margretta Jones, Nancy Evans, Rachel Jones. Dosparth II. —Johnny Thomas, John James Evans, James Brown.

HEN DY CWRDD, ABERDAR. ARHOLWR—PARCH. MELCHISEDEC EVANS.

Cyfanrif 5.

Safon I.—Dosparth II.—Margaret Jane Davies, Sarah Ann Davies, Olwen Morfydd Morgan, David John Davies, Evan Glyn Evans.

LLWYNRHYDOWEN. ARHOLWR—PARCH. E. O. JENKINS.

Cyfanrif 8.

Safon I.—Dosparth I.—Rachel Richards, Nellie Boyles, Daff Jones, Evan John Jones, John Griffith Williams, Evan James, Evan Tom Lloyd.

Safon II.—Dosparth I.—Evan Tom Lloyd.

PANTDEFAID. ARHOLWR—MR. J. R. THOMAS, C.M., PONTSHAN.

Cyfanrif 5.

Safon I.—Dosparth I.—Elizabeth Jones, Annie Davies, Daff Jones, Sam Jones, David John Evans.

RHYDYGWIN. ARHOLWR—PARCH. R. C. JONES.

Cyfanrif 33.

Safon I.—Dosparth I.—Dinah Jenkins, Mary Elizabeth Jones. Mary Jane Williams, Margaret Evans, Sally Margaret Davies, Elizabeth Annie Davies, Hannah Mary Jones, Elizabeth Saunders Davies, Elizabeth Evans-Jones, Gwladys Saunders Davies, Jennie Jenkins, Josiah Thomas, John Jenkin Jones, David Daniel Jones, David Thomas Evans.

Safon II.—Dosparth I.—Margaret Evans, Hannah Mary Jones, Dinah Jenkins, Sally Margaret Davies, Elizabeth Saunders Davies, Elizabeth Evans-Jones, Gwladys Saunders Davies, Jennie Jenkins, Johnny Jenkins, Johnny Jones, Evan Jones, Thomas Lloyd, John Evans, Daniel Saunders Davies, John Jones, Watkin Griffiths, David Jones, David Daniel Jones.

TREBANOS. ARHOLWR—PARCH. L. MORGAN, CLYDACH.

Cyfanrif 20.

Safon II.—Dosbarth I.—Blodwen Davies, Hannah Davies, Elizabeth Thomas, Margaret Ann Bowen, Dinah May Thomas, Mary E. Mainwaring, Rachel Ann Thomas, Mary Morgan, May Watkins, Rachel Ann Morgan, Griffith Thomas, Johnny Bowen, Sammy Morgan, Tommy Bowen, Willie Bowen, Marles Williams, Oscar Bowen, Harry Williams. Dosparth II.—Sarah Ann Davies, Winnie Morgan.

Y PARCH. DAVID LLOYD, M.A., LL.D., PRIFATHRAW COLEG CAERFYRDDIN.

[ADGOFION HEN DDYSGYBL AM DANO.]

Mri. GOL.—Mi fum yn gohebu a chyfaill a chydfyfyriwr am bedair blynedd yn Ngholeg Caerfyrddin, ac yn ystod yr ohebiaeth ysgrifenodd rai o'i adgofion i mi. Meddyliais y gallent fod yn ddyddorol i rai o'ch darllenwyr, ac ysgrifenais i ofyn ei genad i'w defnyddio. Cydsyniodd ar unwaith, ond i mi awgrymu mai ar fy nghais i y cyhoeddir hwy; ac ychwanegodd y gallai fod yn ddyddorol cael adgofion eraill o'r hen fyfyrwyr o unrhyw enwad. Os cytunwch a mi chwi rowch le i'r adgofion yn YR YMOFYNYDD pan yn gyfleus. Enw'r ysgrifenydd yw y Parch. John Lloyd James (Clwydwenfro), gweinidog gyda'r Cynulleidfaolwyr yn March, Cambs.—R.J.J.

"1.—Yr oedd Dr. Lloyd yn ddigrif iawn yn y dosbarth ambell bryd, a phan fyddai felly, ymgomiai'n gyfeillgar

iawn â ni—codai'r ymgom wrth gwrs oddiar rywbeth yn y wers. Cofiaf yn neillduol un achlysur, yr oedd y wers yn y Testament Newydd, yn Actau yr Apostolion, a'r pwnc drodd i fyny oedd Troedigaeth. Ebe fe, "Nid yw troedigaethau proffesedig ddim bob amser yn drwyadl ac yn wir droedigaethau. Yr oeddwn i unwaith yn dychwelyd ar fy ngheffyl, ar hyd y brif ffordd, yn hwyr un noson, ar ol bod yn pregethu [yn Rhydyparc a St. Clears, yn debyg], a daethum i fyny at rhyw ddyn, dyn dieithr i mi. 'Nos da,' ebe fe. 'Nos da,' ebwn inau. Tybiodd feallai mai gweinidog oeddwn, a dechreuodd siarad am ei droedigaeth, gan ddweyd iddo fod unwaith yn waethaf o bechaduriaid, yn ddihiryn o'r fath waelaf; ond trwy ras Duw yr oedd wedi cael troedigaeth oddiwrth ei ffyrdd drygionus. 'Teimlwn yn anesmwyth iawn yn ei gwmni,' ebai'r Doctor, 'a gofynais iddo, a oedd yn siwr ei fod wedi cael troedigaeth; atebodd yntau, ei fod yn siwr, er cynrwg yr oedd wedi bod un amser. Teimlais ryw ddychryn yn codi drosof. Tybiwch eich bod yn gamsyniadol yn y mater ac yn cyfeiliorni; mi garwn i petych chwi gadw tipyn o'r tu ol, neu frysio'n 'mlaen rhag eich bod yn camsynied. Arafodd y dyn ei gamrau a brysiais inau yn fy mlaen gan beri i'r ceffyl godi trot. Ni alla i byth drystio i'r dynion hyny a fostiant eu bod unwaith yn bechaduriaid mawrion, a'u bod wedi cael troedigaeth. Nid yw troedigaeth o'r fath ddim bob amser yn droedigaeth i ymddiried iddo."

"2.—CORNELU'R DOCTOR.—Dygwyddem fod gyda gwers yn y Testament Groeg, yn yr Actau, lle gwneir sylw am angel. Sylwodd y Dr. nad bodau goruwchnaturiol oedd yr angelion yn y Beibl, ond elfenau neu alluoedd natur, weithredent yn ddirgel, mewn gair fe sonia'r Iuddewon am y gwynt fel angel. Gofynais i'r Doctor, Beth am yr angel ymddangosodd i Daniel (ix. 20—23) pan ar weddi, ac a lefarodd wrtho:—Daethum yn awr allan i beri i ti fedru deall, &c. Ymddangosai'r Doctor megys mewn penbleth, ac heb wybod beth i ddywedyd, o'r diwedd ychwanegodd, 'O, yr oedd hyny ys llawer dydd.' Ni ddywedodd e ddim am angelion byth wed'yn."

"3.—Arferai'r Doctor ddywedyd pan yn ymdrin a materion ffydd, &c., yn y Testament Groeg, 'Nid wyf am ymyryd a'ch cred grefyddol; mater yw hwnw i chwi eich hunain; ond edrychwch fod genych reswm, a rheswm da dros eich cred grefyddol, a pheidiwch dibynu gormod ar yr hyn yr ydych wedi arfer edrych arno fel uniongrededd, o bosibl heb ddigon o reswm drosto."

"4.—Pwnc yr oedd y Doctor a minau yn anghytuno yn ei gylch oedd yr ystyr y dylid cymeryd y termau 'deddf,' 'cyfiawnder,' yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, fel sail cyfiawnhad gyda Duw. Daliai efe mai seremoniol oedd y ddeddf yn y cysylltiad hwnw; a daliwn inau ei fod yn cynwys y moesol a'r seremoniol—yr oll. 'Pa esponiad fyddwch chwi'n ei ddarllen?' ebe fe. 'Barnes,' ebwn inau. Ebe yntau, 'Ymgynghorwch â Doddridge yn wastad.' Ond ar un achlysur dywedais rywbeth a'i boddiodd. 'Yn mha le y cawsoch chwi'r syniad yna?' ebe fe. 'Yn Barnes, syr,' meddwn inau. Ac ebe yntau, 'Ni feddyliais i ddim y gallasai Barnes ddywedyd dim mor dda.' Ac ychwanegodd, 'Dewch a'ch Barnes gyda chwi y tro nesaf." Gwnaethum hyny, a gofynodd am ei weled. Ymddangosai fel pe'n cael ei foddio ganddo, a dywedodd wrthyf, 'Dewch ag ef gyda chwi bob tro y byddom yn darllen y Testament Groeg. Gwnaethum. A daeth yn hoff iawn o Barnes."

"Parodd amgylchiadau i mi aros yn Nhaerfyrddin am wythnos ar ol gorphen yr *Examination* diweddaf yn 1859, er mwyn gwneud trefniadau ar gyfer fy nyfodol. Un prydnawn cyfarfyddais a'r Doctor yn ei gerbyd. Arosodd a gofynodd y rheswm paham yr oeddwn yn aros ar ol yr *Examination*. Dywedais wrtho. Synai glywed nad oedd genyf yr un eglwys mewn golwg. Dywedais wrtho nad

oeddwn i ddim wedi trafferthu llawer iawn i gael un, gan fy mod am fyned yn mlaen a'm efrydiaeth gymaint a allwn. 'O, mi welaf,' ebe fe, 'yr ydych yn ei theimlo yn galed i ymadael a'r *Alma Mater*. Teimlaf yn brudd i golli'r Senior Class eleni, yn fwy felly nag arfer. Dewch yn ol am flwyddyn arall, a gwnaf sicrhau ugain punt i chwi ar gyfer eich treuliau. Gallwch fyned a phregethu faint a fynoch ac edrych am eglwys. Dewch yn ol!' Atebais inau, 'Y mae'r dosbarth wedi tori i fyny, Doctor. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i chwi am eich cynyg.' 'Wel,' ebe fe, 'os nad oes eglwys genych, erbyn y byddwn yn cwrdd yn mis Medi, dewch yn ol, a gallwch studio beth a fynoch.' Diolchais iddo drachefn, ac aethum i ffwrdd yn teimlo'n fwy hyderus, pan yn gwybod y gallwn ddychwelyd os heb eglwys. Yr oedd genyf eglwys mewn golwg, ond cefais fy nghamarwain gan weinidog yr hwn oedd am yr eglwys ei hunan. Aethum ar daith i Forganwg a Mynwy ac yn pregethu lle y cawswn alwad i hyny. Yr oeddwn wedi sefydlu cyn adeg agor y coleg. Onid oedd y Doctor yn garedig? Ni anghofiaf fi byth ei garedigrwydd."

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.

Diwrnod a gofir yn hir fel un o wir fwynhad oedd dydd Mercher, Mehefin yr 8fed, pan gynhaliodd eglwysi Ceredigion eu gwyl gerddorol yn Llanbedr. Yr oedd yr amgylchiadau yn hynod o ffafriol yn mhob ystyr—yr hin yn heulog, y cynulliadau yn lluosog, a thrwy garedigrwydd yr eglwys Annibynol, cawsom gapel hardd ac eang Soar at ein gwasanaeth. Llywydd y boreu ydoedd Mr Thomas Davies, y Felin, Cwrtnewydd; a'r prydnawn y Parch David Evans, Cribyn. Yr arweinydd eleni oedd Mr George Thomas, A.C., Treorci, yr hwn a roddodd foddlonrwydd cyffredinol drwy ei gyflawniad deheuig o'i waith. Cyfeiliwyd yn fedrus gan Mrs Evans, Cartref. Nid wyf yn deall digon ar y canu i'w feirniadu yn fanwl, pe bae hyny yn anghenrheidiol, ond teimlwn y nodweddid y dadganiad o'r oll o'r tonau cynulleidfaol gan y gallu cyfrin sydd mewn cerddoriaeth i roddi nwyf a bywyd yn ngeiriau yr emynau. Yr oedd y dadganiad gan y plant o'r ddwy don—'Canlynaf Iesu' a 'Clychau'n Canu'—yn hynod o swynol. Anthem yn gofyn cryn dipyn o ymdrech i'w chanu yn dda oedd yr un eleni—'Canmlwyddiant yr Ysgol Sul'—ac yr oedd yn amlwg nad oedd yr amser a'r yni gofynol i'w gwneud yn llwyddiant wedi ei roddi mewn llawer o'r eglwysi. Ar ddechreu cyfarfod y prydnawn, canodd pedwarawd o Lanbedr 'Bedd y Dyn Tylawd' yn dlws a theimladwy dros ben.

C.D.

Ceir rhai heddyw yn ameu fod Undodiaid erioed wedi bod ar y blaen ar eraill. Mor fore a 1807, fe dynodd Belsham sylw at y ffaith fod y Pentateuch, neu'r pum llyfr briodolir i Moses, yn llyfrau cyfansawdd, ac nid ffrwyth ysgrifell un dyn; ac yn 1821, fe gyhoeddodd fod hanes y cread yn Genesis yn gwbl groes i addysg Gwyddor.

MARWGOFION.

EBRILL 21, yn 34 mlwydd oed, David Lewis, Pheasant Bush, Trebanos. Tra byr y bu cystudd ein cyfaill a'n brawd ieuanc. Tost gorfod dwyn y syniad am doriad i lawr ddynion yn mlodau eu dyddiau, a'u hysgwyddau fel y derw yn yr awel. Mae bechgynos yr ardal, fu yn cydchwareu ag ef ar lasiad haul, megys yn unig heb ei gwmni difyrus, oblegid arferai fod yn hapus gylch-o-gylch ieuengrwydd diniwed. Gwag, mwyach, fydd ei sedd ar yr aelwyd ; ac y mae y llygad a wel, yn gweled gwagder cadair ymadawedig yn fuanach na gweled gwawr-belydr. Y Llun dilynol, hebryngwyd ei farwol ran i gladdfa Gellionen, dan weinyddiad deheuig a tharawiadol y Parch D. Gomer Richards, Gosen, Trebanos. Gedy ein ffrynd wraig unig a thri o blant bach siriol i wylo, megis ar ymyl Iorddonen eu hiraeth a'u colled. Nodded nefoedd, ein tynerwch a'n brawdgarwch ni fyddo yn rhyw gymaint o gysur iddynt yn yr anial.

Hawdd yw canu can diadfyd,
Pan mae'r wawr yn dyddio gwynfyd,
Cenwch, deulu, yn y nos,
Dyna wnaiff eich can yn dlos.

MAI 11, yn bum mis oed, Salford Gwyn, mebyn bychan Mr a Mrs W. Alfa Richards, Brynywawr, Trebanos Meddyliasom a phroffwydasom flynyddau a bywyd barddonol i Gwyn bach,—ond wele, plygodd dan yr awel ysgafn. Ni a gydwylwn a'r teulu yn eu hiraeth dwys ar ol y gwynaf o'r rhosynau ; y Sadwrn dilynol claddwyd wrth gapel Gellionen. Gweinidogaethodd y Parch D. Gomer Richards, Gosen, Trebanos Coded y teulu eu golygon i gyfeiriad y goleuni ysplenydd.

[anwylyn,
Ei wen oedd fel gwanwyn iach,—
Na welwyd siriolach ;
O wanwyn i haf gwynach,
A'i gan bert aeth eich Gwyn bach.
BANOS.

MAI 19, yn 70 mlwydd oed, Mr John Davies, Pengarnuchaf, ger Bethania. Yr oedd yr ymadawedig yn frawd i dad y diweddar Barch. J. Hathren Davies. Pan yn ieuanc bu mewn gwasanaeth mewn ffermau yn nghymdogaeth Rhydygwin, ac yr oedd yn addolwr cyson yn nghapel Rhydygwin y pryd hwnw. Wedi iddo ymbriodi symudodd o'r gymdogaeth. Yn mhen rhai blynyddau prynodd fferm Pengarnuchaf, ac yno y bu yn byw oddiar hyny. Methodistiaid yw pawb yn yr ardal hon, ond yr oedd Mr Davies yn Undodwr rhy gadarn i fyn'd gyda'r llu. Parhaodd yn Undodwr selog hyd ddiwedd oes, er ei fod yn rhy bell i fynychu un capel Undodaidd. Prawf o hyny yw iddo roddi yn ei ewyllys ei fferm Pengarnuchaf i eglwysi Ciliau, Rhydygwin, Brondeifi a Chaeronen. Claddwyd ef yn mynwent Capel y Methodistiaid yn Bethania. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchn. Thomas Lewis, Bethania, R. C. Jones, Llanbedr a L. Williams, Rhydygwin. Gadawodd weddw a llu o neiaint a nithod ar ei ol.

MAI 22, yn ddisymwth ac yn ddirybudd iawn, yn mhresenoldeb ei phriod a Mr. Carrara Davies, pan newydd eistedd wrth y bwrdd i gael te, bu farw Annie, priod Mr. John James, Aberaman, Aberdar (*farm bailiff Lord Aberdare*), a merch Mr. John Morgan, Abernantygroes, yn 42 oed. Mae'r ddau deulu, James a Morgan, yn brif golofnau'r achos Undodaidd yn Cwmbach er ei ddechreuad, ac nid oedd yr un ffyddlonach na'r ymadawedig. Anfynych iawn y gwelid ei lle yn wag yn yr addoliad. Fe gofia llawer ei gweled yn y Gymanfa Ganu yn Nhreorci y Mawrth blaenorol, yn llawen a siriol fel arfer ; ac yn awr fe'n hadgofir o'r ymadrodd—"Yn nghanol ein bywyd," &c. "God's ways are dark, but soon or late they touch the shining hills of day." Claddwyd yn y Cemetery dydd Iau—y Parchn. M. Evans, Carrara

Davies, a R.J.J. yn gwasanaethu. Yr Arglwydd a ganiatao i'w phriod a'i rhieni a'r galarwyr oll nerth a chynaliaeth yn ol eu hangen, a'r fath obaith ag a fyddo'n oleuni ag yn help hyd ddiwedd y daith.

Thou loved one! from that far off shore
Float some sweet word the waters oe'r;
Our faith confirm, our fears dispel
With the old voice we loved so well!

MAI 28, yn 60 oed, Roderick Evans, Penlon, Llanio, ger Llanddewibrefi. Ni bu yr ymadawedig dair wythnos wedi gadael ei orchwylion dyddiol cyn cael ei gymeryd fel na ddychwel attynt mwy. Llawgelfyddydwr (*mechanic*) oedd yr ymadawedig. Cafodd ei freintio a galluoedd uwchlaw'r cyffredin yn y cyfeiriad hyn, a thra ragorai yn ei gelfyddyd. Gadawodd mewn galar ar ei ol dri mab, dwy ferch a brawd. Y dydd Iau canlynol daeth tyrfa luosog i'w gynhebrwng, a hawdd adnabod fod un wedi diflanu ag oedd yn anwyl ganddynt. Yr oedd o gymeriad hawddgar, tyner a charedig, yn ddarllenwr craffus, yn dduwinydd a gwleidyddwr goleuedig. Hoffai yn fawr ysgrifau y Parch. Joseph Wood ar y Beibl ac "O For i Deifi," ac ysgrifau eraill gan 'S' yn YR YMOFYNYDD. Claddwyd ef yn mynwent eglwys Llanddewi. Heddwch fyddo i'w lwch, ac i'w enaid anfarwol gynydd fyth mewn gwynfyd nefol, yw dymuniad llu, heblaw y llaw lunia y llinellau hyn.—*T.D.E.*

MEHEFIN 4, Mrs. Jane Davies, Penlan, Pencarreg, yn 78 mlwydd oed. Ar ol cyrhaedd yr oedran teg o bedwar ugain ond dwy, a chwant yn dechreu pallu, a'r ceiliog rhedyn yn dechreu mynd yn faich, teimlai Mrs. Davies yn ei chystudd olaf yn debyg i'r Apostol Paul, ei bod yn gyfyng arni o'r ddau tu—chwant ar gael ymddatod er mwyn ei hunan a chwant am gael aros er mwyn eraill. A thaith heb fod oll yn orchuddiedig a blodau fu taith ei bywyd. Collodd ei phriod pan nad oedd ei phlant ond ieuainc ac heb eu mhagu, a syrthiodd yr oll o'r cyfrifoldeb o'u dwyn i fyny felly ar y fam, a thrwy ymdrech deg ac yn ngwyneb llawer o anhawsderau y cyrhaeddwyd ganddi ei hamcanion. Yr oedd bellach yn un o aelodau hynaf eglwys Brondeifi, a phob amser yn aelod ffyddlon, diniwed, a didramgwydd, a phob amser yn awyddus am lwyddiant yr achos. Gadawodd bedwar o blant, brawd, ac amryw chwiorydd, heblaw perthynasau eraill lawer mewn galar dwys ar ei hol. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent eglwys Pencarreg. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. R. C. Jones, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parchn. Griffith Jones, Llangyfelach a J. Lloyd, Llanilar, a pheriglor y plwyf.

MEHEFIN 11, yn 53 oed, Miss Elizabeth Davies, 92 Salisbury Road, Caerdydd. Yr oedd yr ymadawedig yn chwaer i Mri John ac Owen Davies, Maesyrhedydd a Bwlchog, Llanfihangel-ar-arth, ond yn Nghaerdydd y treuliasai y rhan fwyaf o'i bywyd diwyd a llwyddianus. Perthynai i'r ymadawedig nodweddion lawer yn gymdeithasol a chrefyddol. Yr oedd yn nodedig am ei haelioni a'i charedigrwydd tuag at yr hwn fuasai mewn angen; ac yn nghapel yr Undodiaid yn West Grove nid oedd ei ffyddlonach. Yr oedd yn Undodwraig egwyddorol, yn barod bob amser i roddi rheswm dros y gobaith oedd ynddi, ac yn barod i wneud yr hyn a fedrai er hyrwyddo lledaeniad y gobaith hwnw. Y dydd Iau dilynol dygwyd ei chorph gyda'r gerbydres i New Quay Road, ac yna i Gapel y Bryn, Cwrtnewydd. Gwasanaethwyd yn y capel gan y Parch John Davies, ac ar lan y bedd gan y Parch T. Arthur Thomas. Traddodir y bregeth angladdol yn y Graig, Llandyssul, boreu Sul, Gorph. 3. Gadawodd ddau frawd a dwy chwaer mewn galar o'i cholli.

MEHEFIN 13, wedi cystudd maith ond esmwyth, yn 81 mlwydd oed, Evan Davies, Glanrhyd, Cwrtnewydd, Claddwyd yn mynwent Capelybryn;

a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. John Davies. Gadawodd yr ymadawedig ei briod ffyddlon, dau fab, ac un ferch, i alaru'n ddwys ar ei ol. Yr oedd wedi ei ddonio â galluoedd meddyliol cryfion; ac wedi gwneud defnydd da o honynt; a thrwy hyny wedi dyfod yn ddyn gwybodus. Treuliodd oes ddefnyddiol iawn yn ei gylch. Yr oedd yn briod ffyddlon, yn dad tyner, ac yn gymydog cymwynasgar. Y mae y teulu, yr eglwys, a'r gymydogaeth wedi eu tlodi yn ei farwolaeth. Nerth a gaffont i gymedroli eu galar, ac i efelychu ei rinweddau.

MEHEFIN 14, William, mab bychan Mr. a Mrs. Davies, Llwynifan, Cellan, yn ei bymthegfed mis o'i oedran. Claddwyd gweddillion y bychan yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur i dyrfa anarferol fawr gan weinidog y lle.

MANION AC HANESION.

DRWG genym, oherwydd afiechyd y Parch E. Ceredig Jones, M.A., nad ydyw yr ysgrif ar y Beibl yn y rhifyn hwn. Dymunwn i Mr Jones adferiad buan, ac hefyd barhad difwlch o'r ysgrifau derbyniol hyn.—GOL.

PRIFYSGOL CYMRU.—Da genym ddarllen fod y Prifathraw Walter Jenkin Evans, M.A., J.P., o'r Coleg Presbyteraidd yn Nghaerfyrddin, wedi ei ethol am dair blynedd yn Ddeon Duwinyddiaeth gan Fwrdd Duwinyddol Prifysgol Cymru, fel olynydd i'r Parch. Thomas Lewis, M.A., B.D., Prithathraw Coleg Coffadwriaethol, Aberhonddu.

GRAIG A GELLIONEN. — Llawen genym wneud yn wybyddus i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD i gynulleidfa y Graig a Gellionen ychydig amser yn ol bwrcasu *Trwydded Priodi;* ac o hyny allan cymer priodasau le yn Nghapel y Graig. Gan ei fod yn arferiad i roi Beibl i'r ferch gyntaf fyddai'n priodi wedi'r trwyddedu, fe ddaeth yr anrheg brydferth yma yn eiddo i'r briodasferch—Miss Mary L. Bowen, Bell Vista, Trebanos. Gweler nodion y briodas mewn Rhifyn arall. ——Dalier sylw; chwi bregethwyr a lleygwyr fydd am gael dod i ardaloedd natur a'i rhemynt, ac i blith pobl garedig a serchus y Graig a Gellionen i bregethu yn awr ac eilwaith; byddwch hyfwyned a gohebu â *Banos, 28, Grove Rd, Pontardawe,* neu a rhai o'r brodyr eraill. Bydd angen cael *Supplies* cyson arnom gan fod ein pwlpud yn wag yn herwydd ymddiswyddiad sydyn Mr. W. Alfa Richards.——Prydnawn Sadwrn, yn Gellionen, dan nawdd Ysgol Sul y lle, cafwyd gwledd o dê a theisien felus; a daeth tyrfa fawr o blant yn nghyd a phobl mewn oed hefyd i fwynhau eu hunain o'r danteithion blasus barotowyd iddynt. A da genym i'r Sports droi allan mor rhagorol. Dymuna yr eglwys ddiolch yn wresog iawn i'r boneddigesau a'r boneddigion fuont yn gwneud eu goreu i gael pob peth oddiamgylch mor llwyddianus.

CYMANFA YSGOLION—Cynhaliodd ysgolion Cwm, Capelybryn, Cribyn, Ciliau a Rhydygwin eu Cymanfa Flynyddol, Mai 13eg. Adroddodd ysgol y Cwm, 1 Ioan, iii, a holwyd hwy gan eu gweinidog; adroddodd ysgol Capelybryn, Ioan v, a holwyd hwy gan y Parch L. Williams; adroddodd ysgol Cribyn, Ioan iv, a holwyd hwy gan y Parch E. Ceredig Jones, M.A.; adroddodd ysgol Ciliau

Iago I, a holwyd hwy gan y Parch J. Davies ; ac adroddodd ysgol Rhydygwin, Rhufeiniaid iii, a holwyd hwy gan y Parch D. Evans. Credwn fod nifer aelodau y gwahanol ysgolion yn lluosocach eleni nag yn y blynyddau diweddaf. Nodwedd amlwg yn y Gymanfa oedd mai plant a phobl gymharol ieuainc oedd yn gwneud i fyny yr Ysgolion. Beth yw'r rheswm fod dyddordeb pobl mewn oed yn oeri yn un o sefydliadau goreu ein gwlad? Er hyny cafwyd Cymanfa dda, yr adrodd a'r atebion yn dda.

HYSBYSIAD.—Ni fydd gweinidogion ein heglwysi yn Sir Aberteifi yn cyfnewid pwlpudau eleni fel y maent wedi arfer wneud yn misoedd Gorphenaf ac Awst er's blynyddau. Cychwynwyd cyfnewid pwlpudau gan feddwl y byddai hyny yn foddion i i dynu pobl i'r gwasanaeth. Yr oedd yn amlwg er's amryw flynyddau nad oedd y "cyfnewid" yn cyrhaedd hyn, ac nad oedd yr eglwysi yn ymddangos yn ei werthfawrogi.—L.W.

YN OL AT IESU.—Pa mor bell y gallwn ni wneud hyn? Wedi i eiriau Iesu syrthio i galonau'r dysgyblion ac aros yno am flynyddau, nid hawdd fyddai iddynt eu gollwng allan drachefn yn hollol yr un modd ag y cawsant hwy. Medd Iesu, yn ol Ioan, "Myfi yw y wir winwydden ; Myfi yw y Bugail da ; Myfi yw goleuni y Byd, &c." Byddai yn naturiol i'r disgyblion edrych ar Iesu yn y cymeriad hwnw, ond ai tebyg i Iesu eiroed ddefnyddio'r fath eiriau? Ymddangosant mor groes i'w ysbryd gostyngedig arferol. Y mae gwirionedd yn y geiriau yn ddiamheu ; ond carwn ofyn, Pa un ai Iesu neu'r eglwys roddes ffurf iddynt?

ORIEL COLEG CAERFYRDDIN.

O DAN OLYGIAETH

DR. E. PAN JONES, M.A.,

YN CAEL EI GYNORTHWYO GAN Y

Prifathraw W. J. EVANS, M.A., ac ereill.

Cynwysa hanes yr holl Fyfyrwyr, o bob Enwad, fu yn y Coleg o 1792 hyd 1899, gyda 271 o Ddarluniau Athrawon a Myfyrwyr.

Mae Byr-Gofiantau i'r oll o'r Myfyrwyr Undodaidd wedi eu hysgrifenu yn Saesoneg gan y Prifathraw Evans. . .

284 o DUDALENAU CROWN QUARTO, WEDI EI RWYMO MEWN LLIAN HARDD } **Pris, 7s. 6c.; cludiad yn rhad, 7s. 11c.**

Gyrer yr Archebion i'r Cyhoeddwyr—

Joseph Williams & Sons, Swyddfa'r 'Tyst', Merthyr.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. F. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Write for a Catalogue

of the Bargains on offer during our Great Summer Sale of 1910. Fashions, Drapery, Fancy and Furnishing Goods all at Reduced Prices to clear.

A copy of the Sale Catalogue, (32 pages), full of Illustrations and descriptions of some of the Finest Values ever offered, will be sent Post Free on request.

Ben Evans & Co.,

LTD.

SWANSEA.